PWYLLGOR PENSIYNAU

DYDD LLUN, 27 IONAWR 2020

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Weaver(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Howells, Lay a/ac Graham Thomas |

41 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

42 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd datganiadau buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau

43 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2019 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

44 : PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Roedd yr adroddiad hwn yn diweddaru'r Pwyllgor ar y cynnydd tuag at sefydlu trefniadau buddsoddi cyfun ar gyfer yr wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) yng Nghymru o dan oruchwyliaeth Partneriaeth Pensiynau Cymru (PPC).

Dywedwyd wrth yr Aelodau bod 5 is-gronfa incwm sefydlog wedi'u cymeradwyo a rhagwelwyd y byddent yn cael eu lansio yn ystod hanner cyntaf eleni, fodd bynnag, bu oedi yn y diwydrwydd dyladwy ac mae'r broses honno'n annhebygol o ddod i ben cyn mis Mai. Ar hyn o bryd mae gan Gaerdydd asedau gwerth cyfanswm o £601 miliwn mewn incwm sefydlog. Nodwyd bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn dal ychydig mwy.

Sefydlwyd grŵp o'r Gweithgor Swyddogion i archwilio'r opsiynau ar gyfer Marchnadoedd Preifat gan gynnwys eiddo yn y DU.

Nododd yr Aelodau fod y dyraniad i'r gronfa Olrhain Carbon Isel ar hyn o bryd wedi arwain at ostyngiad o 70% mewn amlygiad i garbon.

PENDERFYNWYD: Nodi'r datblygiadau diweddar yn y broses o sefydlu cronfa fuddsoddi’r PPC.

45 : DATGANIAD STRATEGAETH ARIANNU

Mae'r adroddiad hwn yn nodi sut y mae'r awdurdod gweinyddu yn ceisio bodloni'r gofynion rheoliadol er mwyn sicrhau bod arian ar gael i fodloni rhwymedigaethau pensiynau fel y gostyngiad sy'n ddyledus tra'n cadw cyfraniadau'r cyflogwr mor gyson â phosibl.

Mae'r Datganiad Strategaeth Ariannu wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu nifer o newidiadau technegol fel y cynghorwyd gan yr actiwarïaid. Y newidiadau mwyaf

arwyddocaol yw adran ychwanegol sy'n cwmpasu Credydau Ymadael ac adran Risg Reoleiddiol estynedig, sy'n mynd i'r afael â'r ansicrwydd parhaus sy'n gysylltiedig â strwythur budd-daliadau CPLlL h.y. cydraddoli GMP, achosion McCloud/Sargent ynghylch gwahaniaethu ar sail oedran mewn amddiffyniadau trosiannol mewn cynlluniau sector cyhoeddus, a'r broses rheoli costau. Er mwyn cydymffurfio â chanllawiau'r MHCLG, mae'r Datganiad Strategaeth Ariannu yn nodi'r lwfans a wnaed ym prisiad 2019 ar gyfer yr ansicrwydd hwn.

Bydd y Datganiad Strategaeth Ariannu yn cael ei gymeradwyo a'i gyhoeddi cyn cwblhau'r prisiad actiwaraidd. Rhaid llofnodi adroddiad a thystysgrif cyfraddau cyfrannu'r Actiwari erbyn 31 Mawrth 2020.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo Datganiad diwygiedig y Strategaeth Ariannu.

46 : DATGANIAD STRATEGAETH FUDDSODDI

Mae'r Rheoliadau Buddsoddi yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod gweinyddu CPLlL gyhoeddi strategaeth fuddsoddi erbyn 1 Ebrill 2017; cymeradwywyd Datganiad Strategaeth Fuddsoddi gychwynnol y Gronfa gan y Pwyllgor ar 15 Mawrth 2017. Mae'r rheoliadau hynny hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gweinyddu adolygu ei Ddatganiad Strategaeth Fuddsoddi o leiaf bob tair blynedd.

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Fuddsoddi ddiwygiedig.

47 : POLISI GORDALIADAU A THANDALIADAU

Y Pwyllgor sy'n gyfrifol am lywodraethu strategol Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r gronfa'n gwneud taliadau misol i bron i 12,000 o bensiynwyr a dibynyddion, sy'n cyfateb i tua £5.9 miliwn.

Mae'r Rheoleiddiwr Pensiynau wedi cynghori mai mater i'r Pwyllgor Pensiynau yw penderfynu ar ei Bolisi Gordaliad a Thandaliad ei hun sy'n nodi'n glir sut y caiff gordaliadau a thandaliadau eu rheoli ar ôl eu nodi.

PENDERFYNWYD:

(i) Cymeradwyo'r Polisi Gordaliad a Thandaliad; a

(ii) Nodi bod y polisi'n effeithiol ar unwaith a'i fod yn berthnasol i unrhyw achosion sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd.

48 : COFNODION Y BWRDD PENSIYNAU LLEOL

Gofynnwyd i'r Pwyllgor nodi cofnodion y Bwrdd Pensiynau Lleol a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2019.

PENDERFYNWYD: I nodi'r cofnodion.

49 : GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Mae'r eitem ganlynol yn gyfrinachol ac wedi'i heithrio rhag cael ei chyhoeddi gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig o'r disgrifiad a geir ym

mharagraff 14 o Ran 4 a pharagraff 21 o Ran 5 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Eithriwyd y cyhoedd o'r cyfarfod tra bod yr eitem nesaf yn cael ei thrafod.

50 : COFNODION Y PANEL CYNGHORI AR FUDDSODDI

PENDERFYNWYD: Nodi cofnodion y Panel Cynghori ar Fuddsoddi

51 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni nodwyd unrhyw eitemau brys.

52 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodwyd bod Cyd-gyfarfod anffurfiol gyda'r Bwrdd Pensiynau Lleol i'w gynnal yn Ystafell Syndicet A, Neuadd y Ddinas ar 28 Ebrill 2020 a bod cyfarfod ffurfiol nesaf y Pwyllgor Pensiynau ar 18 Mai 2020 am 5.00pm.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.26 pm